

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Cartrefi Cymunedol Cymru
Community Housing Cymru

Paratowyd y cynllun gwirfoddol hwn yn unol â
Chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg dan
Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



2016

Cynllun Iaith Gymraeg Cartrefi Cymunedol Cymru

1. Cyflwyniad
2. Ein Cynllun
 - a. Gohebiaeth
 - i. Llythyrau ac E-byst
 - ii. Galwadau Ffôn
 - iii. Cynadleddau a Chyfarfodydd Cyhoeddus
 - iv. Hyfforddiant
 - v. Cyfarfodydd
 - vi. Ffurflenni
 - b. Cyfathrebiadau
 - i. Cyhoeddusrwydd
 - ii. Cyhoeddiadau
 - iii. Datganiadau i'r Wasg a Chynadleddau
 - iv. Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd ac Arddangosfeydd
 - v. Cyfryngau Cymdeithasol
 - c. Gweithrediadau Mewnol
 - i. Arwyddion
 - ii. Recriwtio
 - iii. Cyrff Llywodraethu
3. Gweithrediad
 - a. Staffio
 - b. Hyfforddiant Iaith
 - c. Technoleg
 - i. Gwefannau
 - ii. Meddalwedd
4. Monitro
5. Cwynion

1. Cyflawniad

Nod Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) yw bod y llais blaenllaw ar gyfer y sector tai cymdeithasol yng Nghymru, gan gynrychioli dros 70 o gymdeithasau tai dim-er-elw a sefydliadau cymunedol cydfuddiannol.

Mae CCC wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd CCC yn cyflawni'r egwyddorion a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r mesurau y mae'r Grŵp yn cynnig eu cymryd i gyflawni nodau'r Ddeddf.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn cydnabod y darpariaethau a gynhwysir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sef statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylid nodi hefyd y bydd y cynllun hwn yn cael ei ddisodli gan safonau yn unol â Mesur y Gymraeg 2011 ac mae CCC yn ymrwymedig i weithredu egwyddorion Mesur 2011.

Mae CCC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ac i sicrhau bod holl aelodau a defnyddwyr y gwasanaethau yn gallu cyfathrebu gyda'r mudiad yn y naill iaith neu'r llall, ar lafar neu yn ysgrifenedig a chael ymateb yn yr un iaith. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Cynllun at ddwyieithrwydd yn cyfeirio at y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

2. Ein Cynllun

a. Gohebiaeth

i. Llythyrau ac E-byst

Mae CCC yn annog llythyrau ac e-byst yn Gymraeg. Mae gan CCC y darpariaethau dilynol ar gyfer derbyn ac ymateb i lythyrau ac e-byst drwy gyfrwng y Gymraeg:

- ✎ Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb gyda llythyr wedi'i lofnodi yn Gymraeg. Caiff E-byst Cymraeg hefyd ymateb Cymraeg.
- ✎ Bydd ein hamserau targed ar gyfer ateb i lythyrau ac i E-byst Cymraeg yn union yr un fath ag ar gyfer ateb i lythyrau Saesneg
- ✎ Pan anfonwn lythyr/E-bost safonol i nifer o unigolion neu sefydliadau, bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog os na wyddom y byddai'n well gan bawb sy'n ei derbyn ei chael yn Saesneg yn unig neu yn Gymraeg yn unig
- ✎ Pan ysgrifennwn lythyr/E-bost at unigolyn, grŵp neu sefydliad y gwyddom sy'n gweithio'n bennaf yn Gymraeg, neu sy'n well ganddynt dderbyn gohebiaeth Gymraeg, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg

Bydd pob llofnod E-bost ar draws CCC yn gwbl ddwyieithog. Bydd siaradwyr Cymraeg yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ym mhob llofnod e-bost fel ei fod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf. Rhaid i siaradwyr Cymraeg hefyd gynnwys y faner 'laith Gwaith' yn eu llofnod. Bydd siaradwyr Cymraeg hefyd yn defnyddio atebion allan o'r swyddfa awtomatig dwyieithog.

ii. Galwadau Ffôn

Byddwn yn ateb pob galwad i rifau ffôn cyffredinol CCC gyda chyfarchiad dwyieithog:

“Bore da, Good morning (sefydliad)”

neu

“Prynhawn da, Good afternoon (sefydliad)”

Rhoddir canllawiau i staff ar y camau i'w cymryd wrth ateb y ffôn.

Os yw'r person sy'n galw yn dymuno siarad Cymraeg, byddwn yn ceisio cysylltu'r galwad i berson sy'n siarad Cymraeg i ddelio gyda'r ymholiad. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ac yn gallu delio gyda'r ymholiad, caiff y person sy'n galw ddewis i gael person sy'n siarad Cymraeg i'w ffonio'n ôl neu barhau â'r galwad yn Saesneg.

Bydd aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg sydd â rhif ffôn deialu uniongyrchol a ffonau symudol y cwmni yn gadael negeseuon ateb awtomatig dwyieithog ar y ddau.

Bydd negeseuon peiriant ateb i rifau ffôn cyffredinol CCC yn ddwyieithog.

iii. Cynadleddau a Chyfarfodydd Cyhoeddus

Caiff pobl eu hannog i siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd a chynadleddau a drefnir gan CCC. Bydd cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a chynadleddau'n ei gwneud yn glir y caiff cyfraniadau gan y cyhoedd eu hannog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Pan anfonwn gynrychiolwyr sy'n siarad Cymraeg i gyfarfodydd cyhoeddus ac arddangosfeydd, byddant yn dangos y gallant siarad Cymraeg, er enghraifft drwy wisgo bathodyn 'laith Gwaith'.

iv. Hyfforddiant

Byddwn yn canfod bob blwyddyn os oes digon o ddiddordeb gan siaradwyr Cymraeg i gynnal cyrsiau Cymraeg.

v. Cyfarfodydd

Mae CCC yn cynnal llawer o gyfarfodydd llai gydag unigolion a sefydliadau. Caiff pobl eu hannog i siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd hyn.

Pan drefnwn gyfarfod ymlaen llaw gydag unigolyn neu sefydliad y gwyddom fod yn well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg, byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu neu'n cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

vi. Ffurflenni

Bydd ffurflenni i gael eu defnyddio gan sefydliadau eraill ac unrhyw esboniadau a aiff gyda hwy ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Anelwn gynhyrchu pob ffurflen mewn ffurf ddwyieithog. Lle byddai dogfen sengl yn rhy hir neu drwchus neu anodd ei phrosesu, yna cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen ar wahân ar yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch.

b. Cyfathrebiadau

i. Cyhoeddusrwydd

Bydd yr wybodaeth yn ddwyieithog ar gloriau cyhoeddiadau a dulliau eraill o arddangosiad

cyhoeddus. Bydd gwybodaeth print ar benawdau llythyr, dalenni cyfarch, dalenni ffacs, cardiau busnes staff ac eitemau tebyg CCC yn ddwyieithog.

ii. Cyhoeddiadau

Byddwn yn cyhoeddi'r holl gyhoeddiadau newydd a baratown yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg fel arfer gyda'i gilydd mewn un cyhoeddiad dwyieithog.

Weithiau, am resymau ymarferol, cyhoeddir fersiynau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan gyhoeddwn ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, byddwn yn sicrhau, serch hynny, fod y ddau fersiwn yr un mor hygyrch i'r cyhoedd.

Pan godwn dâl am gyhoeddiad dwyieithog, ni fyddwn yn codi mwy na phris fersiwn o'r cyhoeddiad hwnnw mewn un iaith. Pan gyhoeddwn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd ganddynt yr un pris.

Wrth ddefnyddio enwau brand CCC, cyfieithir y rhain i Gymraeg yn nhestun yr holl gyhoeddiadau Cymraeg.

Pan gyhoeddir cyhoeddiadau ar y cyd gyda sefydliadau eraill byddwn yn cyhoeddi fersiwn Cymraeg ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, un ai fel un ddogfen ddwyieithog (y dewis cyntaf) neu mewn fersiynau ar wahân.

iii. Datganiadau i'r Wasg a Chynadleddau

Byddwn yn paratoi fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddatganiadau i'r wasg ar gyfer y cyfryngau.

Lle bynnag sy'n bosibl ac ymarferol, cynhwysir enw llefarydd sy'n siarad Cymraeg yn y datganiad i'r wasg.

iv. Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd ac Arddangosfeydd

Bydd pob ymgyrch gyhoeddusrwydd yn cyfathrebu negeseuon yn Gymraeg a Saesneg. Bydd faint o'r naill iaith neu'r llall a ddefnyddir mewn ymgyrchoedd unigol yn dibynnu ar ystyriaethau effeithlonrwydd hysbysebu a gwerth am arian.

Mewn rhai ymgyrchoedd ar draws y Deyrnas Unedig byddwn yn cyhoeddi hysbysebion ymgyrch ychwanegol dwyieithog yn y cyfryngau Cymraeg a Saesneg lleol.

Bydd ein harddangosfeydd ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ffont, ansawdd ac eglurder. Bydd unrhyw arwyddneu arddangosiad newydd yn dangos y Gymraeg mewn ffordd y mae'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

Bydd llinellau ymateb ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu byddant yn cynnwys gwasanaeth Cymraeg ar wahân yn y Gymraeg.

v. Cyfryngau Cymdeithasol

Pan fydd rhywun yn cysylltu â ni yn Gymraeg, bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yn union yr un fath ag ar gyfer ateb i ohebiaeth Saesneg.

Anogir siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol unigol trwy cyfrwng y Gymraeg ac i gyfrannu i gyfrifion cyfryngau cymdeithasol cyffredinol CCC.

c. Gweithrediadau Mewnol

i. Arwyddion

Bydd pob arwydd allanol a phob arwydd mewnol y bydd y cyhoedd yn eu gweld yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ffont, ansawdd ac eglurdeb. Bydd unrhyw arwyddion newydd yn arddangos y Gymraeg mewn ffordd lle mae'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

ii. Recriwtio

Anogwn geisiadau gan siaradwyr Cymraeg am bob swydd wag a hysbysebhir. Er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi a hysbysebhir, bydd hysbysebion recriwtio mewn papurau newydd yng Nghymru yn ddwyieithog os nad yw'n amlwg nad yw hynny'n briodol neu'n ymarferol. Ar gyfer swyddi lle mae'n hanfodol siarad Cymraeg, yn Gymraeg yn unig y byddwn yn hysbysebu, gydag esboniad byr yn Saesneg.

Lle mae hynny'n ymarferol byddwn yn rhoi hysbysebion ychwanegol ar gyfer recriwtio ar gyfer swyddi yn y cyfryngau Cymraeg, hyd yn oed lle mae'r swydd yn un lle nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

Fel arfer bydd hysbysebion ym mhrif bapurau newydd y Deyrnas Unedig yn Saesneg yn unig.

iii. Cyrff Llywodraethu

Byddwn yn annog cymysgedd teg o siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar gyrff llywodraethu CCC drwy gynnwys iaith yn yr archwiliad blynyddol o sgiliau Aelodau.

Gall gyrff llywodraethu CCC benderfynu rhoi blaenoriaeth i siaradwyr Cymraeg wrth recriwtio a chyfethol Aelodau newydd.

Bydd unrhyw bapurau cabinet neu bwyllgor sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu darparu yn ddwyieithog.

3. Gweithrediad

a. Staffio

Er mwyn i'r cynllun hwn fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i CCC fod â nifer ddigonol o staff gyda sgiliau priodol sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae pob rheolwr yn gyfrifol am adolygu swyddi lle mae'n hanfodol neu fanteisiol cael siaradwr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth yn unol â'r cynllun yma. Pan yn addas, caiff y gallu i siarad Cymraeg ei ystyried fel un o sawl gallu i lenwi swyddi gwag sy'n codi, yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal y Grŵp.

b. Hyfforddiant iaith

Bydd gan hyfforddiant iaith ran bwysig wrth gynyddu nifer y staff a all weithio'n hyderus yn Gymraeg, a bydd CCC yn annog staff i fynychu cyrsiau addas. Paratwir strategaeth i ddiwallu anghenion hyfforddiant Cymraeg y dyfodol.

Dynodwyd y blaenoriaethau dilynol ar gyfer hyfforddiant:

- ✎ annog yr holl staff sy'n dymuno gwneud hynny i ddysgu Cymraeg i'w galluogi i drin ymholiadau syml gan aelodau o'r cyhoedd;
- ✎ cynorthwyo a chefnogi staff sydd â'r lefel ofynnol o ymrwymiad i ddilyn hyfforddiant iaith i ddysgu Cymraeg neu i wella eu Cymraeg.

c. Technoleg

i. Gwefannau

Bydd gwefan CCC (www.chcymru.org.uk) yn ddwyieithog.

Byddwn yn sicrhau bod y testun pob tudalen o'n gwefan ar gael yn Gymraeg, fod cynnwys Cymraeg yn gwbl weithredol a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pan fyddir yn ailddatblygu gwefannau neu unrhyw wasanaethau technoleg gwybodaeth eraill, byddwn yn ystyried canllawiau dwyieithog a safonau meddalwedd Comisiynydd y

Gymraeg.

ii. Meddalwedd

Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw feddalwedd cyfrifiadurol newydd a brynir gan CCC yn gydnaws gyda chyflawni ymrwymadau'r Cynllun hwn.

Er mwyn helpu staff i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd meddalwedd TG fel geiriadur a gwirrydd sillafu Cysgliad ar gael ar gyfrifiaduron (ar gael o Brifysgol Bangor). Bydd fersiynau Cymraeg o Microsoft Windows ac Office ar gael i staff sy'n dymuno eu defnyddio (ar gael yn rhad ac am ddim o Windows).

4. Monitro

Bydd CCC yn monitro perfformiad a'r ymrwymadau a wneir yn y Cynllun hwn. Cyflwynir adroddiad bob blwyddyn i gyrrff llywodraethu CCC a'u cyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Os na chyflawnir unrhyw un o ymrwymadau'r Cynllun, bydd yr adroddiad yn esbonio pam a bydd yn amlinellu'r camau gweithredu arfaethedig. Cyhoeddir crynodeb o'r adroddiad yn yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir gan CCC.

Caiff cwynion, ysgrifenedig a llafar, gan aelodau'r cyhoedd sy'n dilyn methiant i gydymffurfio gyda'r Cynllun, eu cynnwys yn y broses fonitro.

Elfennau eraill yn y system fonitro fydd:

- i ba raddau y cafodd systemau gweinyddol newydd a dogfennau atodol eu darparu yn ddwyieithog;
- y cyfrannau o'r ohebiaeth Saesneg a'r ohebiaeth Gymraeg a atebwyd o fewn yr amserlen darged;
- defnyddio cyfieithu mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill;
- y gyfran o gyhoeddiadau a ffurflenni a gyhoeddwyd yn ddwyieithog, a'r rhesymau pam nad yw eraill yn ddwyieithog;
- y rhesymau am unrhyw oedi wrth gynhyrchu fersiynau Cymraeg o gyhoeddiadau CCC;
- y gyfran o hysbysiadau i'r wasg a gyhoeddwyd yn ddwyieithog;
- nifer a dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn CCC;
- nifer y staff sy'n cymryd cyrsiau dysgu Cymraeg;
- i ba raddau y mae wyneb CCC yn hollol ddwyieithog e.e. arwyddion, pennau llythyrau.

Bydd yr adroddiad monitro yn mesur gweithrediad y cynllun yn erbyn set o dargedau y cytunwyd arnynt.

5. Cwynion

Bydd CCC yn monitro'n agos pa mor dda y mae'n cyflawni ymrwymadau'r Cynllun. Os yw'n methu yn yr ymrwymadau hyn, gobeithiwn y bydd aelodau o'r cyhoedd yn dweud wrthym. Dylid anfon unrhyw gŵyn am wasanaethau Cymraeg at:

Y Prif Weithredydd Cartrefi Cymunedol Cymru	029 2067 4800 enquiries@chcymru.org.uk	2 Ocean Way, Caerdydd, CF24 5TG
---	---	---------------------------------------

Rydym hefyd yn annog awgrymiadau am welliannau i'r gwasanaethau a ddarparwn yn Gymraeg. Dylid anfon unrhyw awgrymiadau i'r cyfeiriadau uchod lle cânt eu hystyried fel rhan o'n hadolygiad parhaus o'r ffordd y darparwn ein gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae fersiwn Saesneg o'r Cynllun hwn yma:
[Welsh Language Scheme](#)

Ni fydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn ceisio diwygio'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn heb ymgynghori'n gyntaf â Chomisiynydd y Gymraeg.